Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 19 Mawrth 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i allu ateb eich cais am wybodaeth dyddiedig 17 Mawrth 2015, a oedd fel a ganlyn:

Pam wnaeth llywodraeth cymru dalu 52 o filiynau o bunnoedd am y maes awyr ac yntau wedi ei hysbysebu yn yr international estate journal am 20 miliwn?

Dywedodd eich e-bost ar 19 Mawrth 2015, "deallaf eich bod yn cyhoeddi adroddiad ynglŷn â'r gwerthiant yn fuan." Mae hynny'n gywir, a gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth ynglŷn â pham y talodd Llywodraeth Cymru £52 miliwn am y maes awyr. Mae gwybodaeth o'r fath yn dod o fewn yr esemptiad a ddarperir gan adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (gwybodaeth a fwriadwyd i'w chyhoeddi yn y dyfodol). Er bod lles i'r cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth hon, bodlonir hynny drwy ei gyhoeddi. Mae hefyd er lles y cyhoedd i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn yr adroddiad ei hun (ar amser o'i ddewis ei hun ac yn dilyn proses briodol o wirio ffeithiau), yn hytrach na chyhoeddi agwedd arbennig ar yr adroddiad ar ei ben ei hun cyn pryd. Rwyf felly wedi penderfynu, o bwyso a mesur lles y cyhoedd, y dylid cynnal yr esemptiad a roddir gan adran 22.

Nid oes gennym unrhyw gofnod o wybodaeth ynglŷn â'r ffigwr o £20 miliwn yr ydych yn cyfeirio ato.

Os dymunwch gwyno ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu lythyr ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Dan hon, cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar ba un ag ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl fel arfer i chi fod wedi defnyddio ein holl weithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir cyfarwyddyd ychwanegol ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Diolch i chi am eich e-bost dyddiedig 11 Ebrill 2015. Rwyf wedi ei anfon ymlaen at gydweithwyr perthnasol er mwyn iddynt nodi ei gynnwys.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips